# Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

**2010 mccc 7**

## RHAN 1

GWASANAETHAU CYMORTH IECHYD MEDDWL SYLFAENOL LLEOL

*Asesiadau iechyd meddwl sylfaenol*

### 7 Dyletswyddau i gynnal asesiadau iechyd meddwl sylfaenol: atgyfeiriadau gofal sylfaenol eraill

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i unigolyn–

(a) nad yw'n dod o fewn unrhyw un o'r disgrifiadau yn adran 8(1); a

(b) y gwneir atgyfeiriad perthnasol mewn cysylltiad ag ef at ddibenion yr adran hon.

(2) Rhaid cynnal asesiad iechyd meddwl sylfaenol mewn cysylltiad â'r unigolyn yn unol ag adran 9.

(3) Ystyr atgyfeiriad perthnasol at ddibenion yr adran hon yw cais am i unigolyn gael asesiad iechyd meddwl sylfaenol sy'n bodloni'r amodau canlynol.

(4) Yr amod cyntaf yw bod cais yn cael ei wneud–

(a) gan gontractiwr yr ymrwymwyd mewn contract gwasanaethau meddygol cyffredinol gydag ef o dan adran 42 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006–

(i) gan y Bwrdd Iechyd Lleol y gwneir y cais iddo, neu

(ii) os gwneir y cais i awdurdod lleol, gan y Bwrdd Iechyd Lleol sy'n bartner iechyd meddwl lleol i'r awdurdod;

(b) gan berson y mae trefniadau wedi eu gwneud o dan adran 50 o'r Ddeddf honno–

(i) gan y Bwrdd Iechyd lleol y gwneir y cais iddo, neu

(ii) os gwneir y cais i awdurdod lleol, y Bwrdd Iechyd Lleol sy'n bartner iechyd meddwl lleol i'r awdurdod;

(c) gan ymarferydd meddygol cofrestredig a gyflogir at ddibenion adran 41 o'r Ddeddf honno–

(i) gan y Bwrdd Iechyd Lleol y gwneir y cais iddo, neu

(ii) os gwneir y cais i awdurdod lleol, y Bwrdd Iechyd Lleol sy'n bartner iechyd meddwl lleol i'r awdurdod; neu

(d) gan ymarferydd meddygol cofrestredig sy'n darparu gwasanaethau i garcharorion o dan drefniadau a wnaed rhwng yr ymarferydd meddygol cofrestredig a pherson sy'n gyfrifol am ddarparu neu redeg carchar sydd wedi ei gontractio allan (o fewn ystyr adran 84(4) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1991) yng Nghymru.

(5) Yr ail amod yw bod y cais yn cael ei wneud i bartner iechyd meddwl lleol ar gyfer ardal yr awdurdod lleol lle y mae'r contractiwr, y person neu'r ymarferydd yn ymgymryd â'r rhan fwyaf o fusnes neu weithgareddau'r contractiwr, y person neu'r ymarferydd.

(6) Y trydydd amod yw bod yr unigolyn y gwneir y cais mewn cysylltiad ag ef yn dod o fewn categori a bennir–

(a) mewn rheoliadau a wneir gan Weinigogion Cymru; neu

(b) yn y cynllun ar gyfer yr ardal awdurdod lleol honno o dan adran 2(4)(c).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 7 mewn grym ar 15.2.2011 at ddibenion penodedig, gweler **a. 55(1)(2)**(b)

**I2** A. 7 mewn grym ar 1.10.2012 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2012/2411, **ergl. 2(c)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Adran 7.